# Partneriaeth Natur Leol Caerdydd

# Cylchlythyr 2024

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur Leol Caerdydd - diweddariad

Mae'r cynnydd o ran datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn parhau. Bydd y cynllun yn nodi'r camau sydd eu hangen i gefnogi adferiad natur yng Nghaerdydd.



Cynhaliwyd gweithdai a digwyddiadau ymgysylltu mewn nifer o leoliadau ledled y ddinas i gasglu barn, pryderon ac awgrymiadau ar gyfer gweithredu i helpu adfer natur.

Roedd y prif bryderon yn cynnwys:

- Parciau /mannau gwyrdd / coed yn cael eu colli i ddatblygiadau / tai.
- Gwastraff a sbwriel.
- Amrywiadau yn ansawdd a hygyrchedd mannau gwyrdd Caerdydd
- Rhwystrau i ymgysylltu â natur gan gynnwys amser, cost, cysylltiadau trafnidiaeth gwael.
- Llygredd dŵr mewn afonydd a llynnoedd - sbwriel a charthffosiaeth
- Diffyg cysylltiad â PNL Caerdydd - canfyddiad mai dim ond ar gyfer 'sefydliadau mawr' neu arbenigwyr y mae
- Gall ymgysylltu â natur fod yn frawychus a gall tôn / iaith fod yn annymunol.

## Digwyddiad Gweithredu Adfer Natur mewn Ysgolion

I gasglu barn pobl ifanc, cynhaliwyd gweithdy natur ar gyfer ysgolion hefyd.

Y themâu allweddol a drafodwyd oedd pwysigrwydd pyllau a'r angen am blannu sy'n well i bryfed peillio.

Roedd rhai o'r rhwystrau i gael mynediad at fannau gwyrdd a natur ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys:

- Gofynion y llywodraeth a'r cwricwlwm
- Diffyg offer ac adnoddau
- Diffyg parch a dealltwriaeth ehangach o natur
- Diffyg hyfforddiant ac arbenigedd mewn gweithgareddau sy'n dda i natur

Bydd y sylwadau a'r awgrymiadau a gasglwyd yn ystod y sesiynau hyn yn cael eu hymgorffori yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Caerdydd drafft. Bydd y cynllun drafft yn cael ei ddosbarthu i gael sylwadau ddiwedd yr haf.



# Partneriaeth Natur Leol Caerdydd

# Cylchlythyr 2024

Partneriaeth Natur Leol Caerdydd

Cardiff Local Nature Partnership

## Pyllau Cymunedol

Cefnogodd Cronfa Prosiect Cymunedol Partneriaeth Natur Lleol Caerdydd dros 30 o





brosiectau cymunedol y llynedd. Yn y llun isod mae pyllau wedi'u gosod yn safleoedd rhandiroedd Allensbank a Heol Chappell. Mae ganddynt ymylon ar lethr sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt er mwyn caniatáu mynediad diogel i famaliaid fel draenogod, a cherrig o amgylch yr ymyl i ddarparu cysgod i lyffantod a phryfed. r ôl eu sefydlu, bydd y pyllau hyn yn gartref i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid.

## Gweithdy Perllan

Arweiniodd Prosiect Perllan o Abertawe weithdy addysgiadol ac ymarferol ar ddiwrnod heulog hyfryd o aeaf yn ôl ym mis Chwefror. Rhoddodd y mynychwyr eu gwybodaeth newydd ar waith, gan docio coed ym Mherllan Fferm y Fforest. Roedd pawb yn ofalus i docio coed afal a gellygen yn unig gan y gall tocio coed ceirios a ffrwythau cerrig eraill yn ystod misoedd y gaeaf eu gadael yn agored i glefyd deilen arian.



## Gweithdy Adnabod Coed Gaeaf





Diwrnod tywydd lwcus arall ar gyfer cynnal un o ddau weithdy adnabod coed gaeaf mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a Choed Caerdydd.

Mae rhagor o weithdai wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn hon gan gynnwys:

- Garddio Bywyd Gwyllt
- Hyfforddiant Arolwg Llygod Dŵr
- Hyfforddiant arolwg ôl troed Pathewod
- Hyfforddiant arolwg planhigion glaswelltir

## Hoffem glywed gennych!

Os hoffech gael cyngor ar wneud eich lle cymunedol yn fwy cyfeillgar i fywyd gwyllt, neu os hoffech gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein digwyddiadau, gweithdai. a chyfleoedd gwirfoddoli cysylltwch drwy e-bostio **bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk**

Gallwch hefyd ddod o hyd i ni yn y digwyddiad isod:

- 29 Mehefin - dathliad Wythnos Natur Cymru yn Amgueddfa Sain Ffagan

Mae mwy o wybodaeth am fywyd gwyllt yng Nghaerdydd ar wefan Awyr Agored Caerdydd - Bywyd Gwyllt a Bioamrywiaeth